



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru


Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd **2019–20**




Cynnwys

Rhagair	3	Gwelliannau busnes allweddol	46
Ein sefydliad	5	Atodiad 1	50
Ymgysylltu â phobl	9	Atodiad 2	51
Bwrdd Cyngori Cenedlaethol	15		
Gwasanaethau oedolion a phlant	18		
Gwasanaethau gofal plant a chwarae	30		
Gwasanaethau awdurdodau lleol	39		

Sut i roi adborth am ofal cymdeithasol a gofal plant

 Ein ffonio: 0300 7900 126

 Anfon e-bost aton ni: AGC@llyw.cymru

 Ysgrifennu aton ni:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

 arolygiaethgofal.cymru

Rhagair

Croeso i'm hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019-20. Mae'n anodd llunio cyflwyniad heb gydnabod cyd-destun presennol pandemig COVID-19 a hoffwn ddechrau drwy gydymdeimlo'n ddiffuant â phawb sydd wedi colli anwylyn, ffrind neu gydweithiwr o ganlyniad i'r feirws.

Er bod yr adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020, credaf ei bod yn bwysig cydnabod effaith COVID-19 ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae yng Nghymru ac yn gweithio yn y gwasanaethau hynny. Mae'r pandemig wedi trawsnewid y ffordd rydym yn byw yn llwyr, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac sy'n gweithio yn y gwasanaethau a reoleiddir gennym.

Ar 10 Mawrth, ysgrifennais [lythyr agored](#) at ddarparwyr gwasanaethau, i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y ffordd roeddem yn ymateb i'r achosion o COVID-19, yn ogystal â'r ffordd roeddem yn bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Cawsom adroddiad am yr achos cyntaf a gadarnhawyd o COVID-19 mewn cartref gofal yng Nghymru ar 12 Mawrth. Ar 16 Mawrth gwnaethom y penderfyniad i ohirio arolygiadau arferol dros dro er mwyn lleihau'r risgiau o drosglwyddo'r feirws i'r gwasanaethau a arolygir gennym.

Er i ni ohirio arolygiadau arferol dros dro yn ystod cyfnod cychwynnol y cyfyngiadau symud, gwnaethom gynyddu ein cysylltiadau â darparwyr gwasanaethau, yn cynnwys galwadau dal i fyny rheolaidd. Gwnaethom ddefnyddio'r galwadau hyn i weld i ba raddau roedd darparwyr yn llwyddo i gadw pobl mor ddiogel ac mor iach â phosibl, ac er mwyn i ni roi cymorth a chyfeirio pobl at y canllawiau a'r cyngor diweddaraf. Gwnaethom hefyd rannu adborth perthnasol o'r galwadau hyn â chydweithwyr yn adrannau polisi Llywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol i lywio penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Rydym wedi cyhoeddi [trosolwg](#) o'n profiad yn ystod COVID-19, gan ddefnyddio ein trafodaethau â darparwyr a gyda phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Gwnaethom addasu ein prosesau cofrestru er mwyn galluogi gwasanaethau gofal plant i roi gwybod i ni os oeddent yn cau yn ystod y pandemig, ac er mwyn i wasanaethau gofal cymdeithasol newydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion pobl oherwydd COVID-19 ddod yn weithredol. Mae ein gwasanaethau ar-lein, yr ydym wedi bod yn eu datblygu ers nifer o flynyddoedd, wedi bod yn amhrisiadwy drwy alluogi darparwyr i barhau i ymgysylltu â ni, anfon hysbysiadau, gwneud newidiadau i'w cofrestrriad neu wneud cais i gofrestru.

Mae'r pandemig wedi gwneud i ni ganolbwyntio ar rôl hanfodol gwasanaethau gofal. Fel rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, ni sy'n gyfrifol am roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaethau hyn, a chefnogi gwelliant drwy ein gwaith arolygu a rheoleiddio. Nodir canlyniadau allweddol ein rhaglen waith yn ystod 2019-20 yn fanwl yn yr adroddiad hwn ond hoffwn fyfyrion ar yr hyn rwyf yn ei ystyried yn ganfyddiadau allweddol.

- Ar draws pob maes o'n gwaith rheoleiddio ac arolygu, gwelsom sawl enghraifft o arferion cadarnhaol, y tynnir sylw at rai ohonynt yn yr adroddiad hwn. Dylid canmol arloesedd ac ymroddiad y staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru ac sy'n arwain y gwasanaethau hyn.

- Rydym yn dechrau gweld buddiannau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn dwyn ffrwyth, wrth i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau i bobl. Er enghraifft, rydym wedi gweld y ffordd y mae'r hysbysiadau gwelliant statudol newydd yn sicrhau y gellir cymryd camau gweithredu mwy effeithiol yn gynt lle bydd methiannau gofal yn arwain at ganlyniadau gwael i bobl, gyda darparwyr yn gwneud y gwelliannau gofynnol neu'n rhoi'r gorau i weithredu.
- Mae cyhoeddi graddau yn ein hadroddiadau arolygu gofal plant a chwarae wedi bod yn ddatblygiad pwysig. Maent yn rhoi eglurder ynghylch pa wasanaethau sy'n gwneud yn arbennig o dda a, thros amser, byddant o gymorth i'r sector cyfan wella a sicrhau canlyniadau hyd yn oed yn well i blant. Er mai dim ond nifer bach o wasanaethau a gafodd radd 'rhagorol' ar gyfer pob un o'r pedair thema, gall arolygwyr eisoes benderfynu ar rai o nodweddion diffiniol y gwasanaethau hynny. Nid yw'n syndod bod y rôl a gaiff ei chwarae gan arweinwyr yn sefydlu ethos sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn un o'r nodweddion hanfodol hyn.
- Dim ond pan fydd pobl a sefydliadau yn cydweithio y gellir mynd ati'n effeithiol ac effeithlon i gefnogi plant ac oedolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan ymyrryd yn gynnar, hyrwyddo eu hannibyniaeth ac atal eu hanghenion rhag gwaethygu. Mae hyn yn bwysicach nag erioed ond nododd ein holl arolygiadau cenedlaethol bod hwn yn faes y dylid ei wella. Mae yna gyfle pwysig i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r argyfwng a'r ffyrdd arloesol o ymateb iddo, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid allweddol eraill yn cydweithio'n well er budd pobl.
- Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddysgu gwersi a'u defnyddio i wella canlyniadau i bobl. Un o brif ddibenion ein gwaith yw tynnu sylw at arferion da a nodi meysydd lle mae angen gwelliannau ar lefel gwasanaeth neu system. Lle mae'r rheini sy'n darparu gwasanaethau wedi cymryd camau i ymateb i'n canfyddiadau a'n hargymhellion, rydym wedi gweld canlyniadau gwell o lawer. Mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n siomedig, yn rhy aml, na chymerwyd camau newydd a digonol i fynd i'r afael â chanfyddiadau ein harolygiadau a'n hadolygiadau.

Yn olaf, ni allaf orffen heb gydnabod ymroddiad ac ymrwymiad eithriadol pawb a fu'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae yng Nghymru yn ystod y pandemig. Ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), hoffwn fynegi ein hedmygedd a'n diolch mwyaf didwyll.



Gillian Baranski
Prif Arolygydd, AGC

Ein sefydliad

“Ble, wedi'i gyd, y mae hawliau dynol cyffredinol yn dechrau? Mewn mannau bach, yn agos i'r cartref...”

Eleanor Roosevelt

Amdanom ni

Pwy ydym ni

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sef rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

Gweler Atodiad 1 am fanylion llawn am y canlynol:

- y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu
- ein pwerau cyfreithiol
- ble gallwch gael mwy o wybodaeth.

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant.

Fel rheoleiddiwr, ein prif gyfrifoldeb yw sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chynnal mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant wedi cael

ei ddatblygu'n ofalus i adlewyrchu hawliau pobl a'u hymgorffori. Rydym wedi datblygu fframweithiau arolygu yn seiliedig ar fframwaith canlyniadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr. Cefnogir y fframweithiau gan ganllawiau ar gyfer ein harolygwyr sy'n rhoi mwy o bwyslais ar berthnasedd a phwysigrwydd parchu amrywiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau dynol o fewn ein gwaith.

Y Gymraeg

O fewn ein dull sy'n seiliedig ar hawliau, rydym yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn cynnal hawliau pobl mewn perthynas â'r Gymraeg. Bob tro y caiff gwasanaeth rheoleiddiedig ei arolygu, bydd arolygydd yn barnu a yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg a dylai gynnwys tystiolaeth i gefnogi sut mae wedi gwneud y penderfyniad hwn.

Ar y cyfan, gwelsom fod hyrwyddo'r Gymraeg a darparu'r Cynnig Rhagweithiol yn faes y mae angen ei wella ar draws gwasanaethau rheoleiddiedig.

Enghraifft o arferion da

“Fel rhan o'r adolygiad thematig o ddementia, rwyf newydd orffen arolygu cartref gofal. Mae'r cartref yn bendant yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Roedd sawl un yn y cartref yn hoffi siarad yn eu hiaith gyntaf, sef Cymraeg, ac roedd rhai o'r gweithwyr gofal yn rhugl yn y Gymraeg. Cafodd pob un o'r gweithwyr gofal eu hannog a'u hwyluso i ddysgu Cymraeg sgysiol - roedd chwe gweithiwr yn cymryd rhan mewn cyfres o diwtorialau a oedd â'r nod o ddysgu ymadroddion Cymraeg bob dydd er budd y bobl yn y cartref. Roedd y cartref yn trefnu boreau coffi Cymraeg i unrhyw un a oedd am gymryd rhan – dywedodd un person wrthym, "Rwy'n eu mwynhau. Mae'n braf dod ynghyd a chael clonc fel yr hen ddyddiau.” Roedd y Datganiad o Ddiben a'r canllaw ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.”

Arolygydd gwasanaethau oedolion

Enghraifft o fod 'angen gwella'

"Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r gwarchodwr plant ystyried canllawiau strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol."

Arolygydd gofal plant

Enghraifft o arferion da – awdurdod lleol

"Dywedwyd wrthym am ymrwymiad yr awdurdod lleol i hyrwyddo a chefnogi'r broses o roi Safonau'r Gymraeg ar waith. Cryfhawyd y trefniadau ar draws y gwasanaeth drwy roi Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar waith. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o asesiadau'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a dywedwyd wrthym fod sgysiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg."

Dyfyniad o adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion awdurdod lleol

Ymgysylltu â phobl

“Fel rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae yng Nghymru, rydym yn ymrwymedig i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd canolbwyntio ar brofiadau pobl a deall sut mae gwasanaethau yn effeithio ar eu bywydau yn ein helpu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru. Ein huchelgais yw meithrin cydberthnasau cadarn ac ymddiriedus â phobl, gan siarad â chynifer o bobl ag y gallwn.”

Gillian Baranski, Prif Arolygydd, AGC

Ymgysylltu â phobl

Pam mae ymgysylltu yn bwysig?

Rydym yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl, yn gwrandao arnynt ac yn siarad â nhw er mwyn dysgu am eu profiadau o'r gwasanaethau a reoleiddir gennym. Credwn ei bod yn bwysig bod pobl yn lleisio barn ar y ffordd y caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae eu darparu, a'r ffordd rydym yn eu harolygu. Mae hefyd yn bwysig cael adborth ar ansawdd ein gwaith. Rydym yn ymrwymedig i roi cyfle i bobl ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

Y bobl rydym yn ymgysylltu â nhw

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl ledled Cymru a thu hwnt, megis:


- pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio, a'u teuluoedd/gofalwyr;
- pawb sy'n byw yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol, gofal plant neu chwarae;
- pobl sy'n berchen ar wasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant neu chwarae, yn eu rheoli ac yn gweithio ynddynt;
- sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl ag anghenion gofal cymdeithasol a'u gofalwyr;
- sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae;

- pobl sy'n comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol (awdurdodau lleol a'r GIG); a
- cyrff rheoleiddio eraill fel Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal yr Alban, Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC).

Sut y gwnaethom ymgysylltu

Yn ystod 2019 a dechrau 2020, gwnaethom gynnal 12 o ddigwyddiadau rhanbarthol i ddarparwyr gwasanaethau oedolion a phlant; pedwar digwyddiad arfaethedig i ddarparwyr ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru; a dau ddigwyddiad ymgynghori i ddarparwyr gofal plant a chwarae i gasglu eu hadborth ar raddau a'n templedi newydd ar gyfer adroddiadau arolygu.

Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn ystod ein hadolygiad cenedlaethol o ofal ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal; ein hadolygiad cenedlaethol o atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn; a'n hadolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Rydym yn sôn mwy am yr adolygiadau hyn a'r gwaith a wnaethom ar dudalen 24 a thudalen 42. Gwnaethom hefyd gynnal sawl cyfarfod o'n grŵp ymgysylltu â rhanddeiliad.





Tynnu sylw at ofal gwych

Aethom i Sioe Frenhinol Cymru fel rhan o Arolygu Cymru, ynghyd ag Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru erbyn hyn), lle gwnaethom siarad â mwy na 1,740 o bobl, y gwnaeth 125 ohonynt lenwi cardiau post “diolch” i dynnu sylw at enghreifftiau o ofal gwych ledled Cymru.

Cawsom gwmni Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS, ynghyd â'n Prif Arolygydd Gillian Baranski, a achubodd ar y cyfle i lenwi cerdyn, a diolch i'r rheini sy'n darparu gofal.

“Mae gofal gwych yn cael ei roi ym mhob cwr o Gymru, ac mae'n rhaid i ni ddathlu'r unigolion brwdfrydig, ymroddedig hynny am y gwaith eithriadol y maent yn ei wneud.”

Gillian Baranski, Prif Arolygydd, AGC



Adolygu ein dull ymgysylltu

Un cam allweddol yng nghynllun strategol AGC oedd adolygu sut rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddod â darparwyr gofal, gofalmwr a pherthnasau'r rheini sy'n derbyn gofal, a chynrychiolwyr o'r trydydd sector, ynghyd i ddatblygu ein cynllun ymgysylltu. Buom yn trafod pwy yw ein rhanddeiliaid; yn casglu safbwyntiau ar sut beth yw ymgysylltu da; ac yn trafod beth arall yr oedd angen i ni ei wneud i sicrhau ein bod yn ymgysylltu mewn ffordd effeithiol a phriodol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi adolygu ein harolygon adborth arolygu, ystyried y cwestiynau a ofynnir gennym, y dulliau o'u gofyn, a'r wybodaeth a gesglir gennym.

Roeddem wedi bwriadu cyhoeddi ein cynllun ymgysylltu â rhanddeiliad ym mis Mawrth 2020 ond cafodd hyn ei oedi oherwydd y pandemig. Mae'r cynllun yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl yn ein gwaith.

Adolygu ein hadroddiadau arolygu

Mae ysgrifennu adroddiadau arolygu yn rhan bwysig iawn o'n gwaith. Rhaid i'n hadroddiadau roi gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio ac yn dewis gwasanaethau, a'u teuluoedd, am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

Fel rhan o'n hadolygiad ymgysylltu, gwnaethom gynnal arfarniad o'n hadroddiadau arolygu. Gwnaethom gynnal digwyddiadau a defnyddio arolygon i ofyn i'r cyhoedd am eu hadborth. Gwnaethant ddweud wrthym y dylai ein hadroddiadau fod yn glir a chryno, osgoi jargon a defnyddio iaith glir.

Gwelliannau allweddol a wnaed gennym

- Mae profiadau pobl o wasanaethau wrth wraidd ein hadroddiadau arolygu o hyd.

- Mae ein hadroddiadau arolygu yn gliriach erbyn hyn ac maent wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir.
- Bydd gwasanaethau y mae eu graddau wedi'u cyhoeddi yn gallu gweld y rhain mewn tabl ar flaen yr adroddiad arolygu, gyda gwybodaeth fanylach ym mhrif gorff yr adroddiad.
- Rydym yn dal i nodi nifer y gwasanaethau sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, neu sy'n gweithio tuag ato, ond mae hyn bellach yn cael ei nodi'n amlwg ar ddechrau ein hadroddiadau.
- Mae ein hadroddiad ar eu newydd wedd yn cyflwyno hanes y gwasanaeth gan gydymffurfio â'r rheoliadau mewn ffordd sy'n hawdd i'w dilyn.
- Mae ein staff wedi cael hyfforddiant a chanllawiau newydd.

Ymgysylltu yn ystod y pandemig

Roedd yn hanfodol ein bod yn sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth amserol i'w helpu i ddelio â COVID-19 pan darodd effaith y pandemig y gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant gyntaf ym mis Mawrth 2020. Roedd gennym rôl hanfodol yn rhannu gwybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Rhwng 13 Chwefror 2020 a 31 Mawrth 2020, gwnaethom gyhoeddi 14 o fwletinâu i fwy na 70,000 o gyfeiriadau e-bost yn cwmpasu amrywiaeth o randdeiliaid, gan roi gwybod iddynt am y datblygiadau diweddaraf ar bandemig y coronafeirws a'r cyfyngiadau symud dilynol.

Roedd hyn yn cynnwys ein staff ein hunain; pob darparwr gofal; sefydliadau fel Cwlwm a Chwarae Cymru; yn ogystal â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chydweithwyr ym maes polisi yn Llywodraeth Cymru.

Cyfathrebu yn ystod y pandemig

- Gwnaethom lunio ardal benodol ar ein gwefan ar gyfer COVID-19 a aeth yn fyw ar 18 Mawrth 2020.
- Ymwelodd 5,590 o bobl â'n tudalen gwe 'cwestiynau cyffredin' ar COVID-19 yn ystod y cyfnod hwn.
- Gwnaethom rannu 137 o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gyfeirio pobl at ein gwefan yn ogystal â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Rhannodd ein dilynwyr y negeseuon hyn 282 o weithiau.
- Gwnaethom gyrraedd mwy na 9,600 o bobl a chafwyd 1,363 o achosion o ryngweithio â'n negeseuon Facebook ar 26 Mawrth 2020, a oedd yn gofyn i ddarparwyr gofal plant a chwarae ein hysbysu os oedd eu gwasanaethau yn cau ac am achosion o COVID-19.
- Rhwng 13 Chwefror 2020 a 31 Mawrth 2020, gwnaethom ddelio â 329 o negeseuon, a'n helpodd i lunio'r ardal 'cwestiynau cyffredin' ar COVID-19 ar ein gwefan. Roedd y rhain yn aml yn gwestiynau gan ddarparwyr a anfonwyd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

M T W
1 2 3
8 9 10

Gwnaethom gynnal **20** o ddigwyddiadau a gweithdai.



Roedd **393** o gyfeiriadau atom yn y wasg eleni o gymharu â **533** y llynedd.

-26.3%

+61.3%



Gwnaethom siarad â **1,740** o bobl yn ystod Sioe Frenhinol 2019 o gymharu â **1,079** o bobl y flwyddyn flaenorol.

+37%



Roedd **618,304** o sesiynau ar ein gwefan. Mae hyn 37% yn uwch na'r **449,847** o sesiynau y llynedd. Cafwyd cyfnodau prysur ym mis Mehefin, yn arbennig gyda ffurflenni hysbysu, safonau gofynnol cenedlaethol i wasanaethau oedolion a chylchlythyrau. Cafwyd cyfnod prysur ym mis Mawrth 2020 hefyd o ganlyniad i COVID-19.

Mae nifer y tanysgrifwyr i'n cylchlythyr dwyieithog allanol wedi codi o **7,378** i **10,417** sy'n drawiadol.

+41%



Mae hyn o ganlyniad i weithgarwch cyfathrebu parhaus yn annog pobl i danysgrifio.

Gwnaeth **22,164** o bobl ymateb i'n negeseuon ar ein sianeli Twitter a Facebook, o gymharu â **9,912** y llynedd.



+123.6%



Cawsom **887** o ddilynwyr newydd ar ein sianeli Facebook, sy'n codi cyfanswm ein dilynwyr o **758** y llynedd i **1,645** erbyn 31 Mawrth 2020.

Bwrdd Cyngori Cenedlaethol



“Yn y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol gallaf wrando, lleisio pryderon a rhoi llais i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed lle caiff ei glywed a bydd yn cael effaith. Mae'n gyfle gwych i weithio gydag eraill er mwyn gwella gwasanaethau yn ein cymuned.”

Jan Foy, cynrychiolydd gofalwyr

Bwrdd Cynggori Cenedlaethol

Mae ein Bwrdd Cynggori Cenedlaethol yn cynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o'r sectorau gofal plant, gofal cymdeithasol a gwirfoddol, yn ogystal â gofalywyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal yng Nghymru. Mae'r Bwrdd yn cynnig cyfle gwerthfawr i ni ddod ynghyd i rannu syniadau, a thrafod y ffordd y gall AGC chwarae ei rhan yn gwella gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd yn rhoi llais arbenigol sy'n cynnig cyngor awdurdodol ac sy'n herio mewn ffordd adeiladol. Mae'n rhoi cipolwg

amhrisiadwy ar brofiadau pobl sy'n defnyddio ac yn darparu'r gwasanaethau a reoleiddir ac a arolygir gennym. Mae hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith.

Penodi ein Cadeirydd newydd

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd yr Athro Judith Hall ei holnydd fel Cadeirydd y Bwrdd Cynggori Cenedlaethol, am ei bod yn bwriadu rhoi'r gorau iddi o ddiwedd y flwyddyn, a hithau wedi bod yn cadeirio'r Bwrdd ers 2013.

"Mae wedi bod yn bleser cadeirio'r Bwrdd Cynggori Cenedlaethol dros y chwe blynedd diwethaf. Cefais fwynhad mawr o'm cyfarfod olaf, a oedd, fel bob amser, yn ddiddorol, yn rhyngweithiol, yn ysgogol, a gyda rhywfaint o hiwmor, fel erioed. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Bwrdd a'r staff, sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth i mi dros sawl blwyddyn. Hoffwn ddymuno'n dda i'r Bwrdd i'r dyfodol dan arweiniad ei Gadeirydd newydd. Gwn y byddwch, gyda'ch gilydd, yn parhau i wneud gwahaniaeth i ofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru."

Yr Athro Judith Hall

O 1 Ionawr 2020, gwnaethom groesawu Dr Ruth Hussey fel ein Cadeirydd newydd. Arferai Dr Hussey fod yn Gadeirydd yr Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, ac yn Brif Swyddog Meddygol i Lywodraeth Cymru.

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am arwain y Bwrdd wrth fonitro ein gwaith, craffu arno a chodi ymwybyddiaeth ohono.

"Roedd yn bleser gennyf gael fy mhenodi yn gadeirydd Bwrdd Cynggori Cenedlaethol AGC ar ddechrau 2020, ac rwyf eisoes yn ymwybodol o'r cyfoeth o brofiad sydd gan bob aelod o'r Bwrdd. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r aelodau dros y tair blynedd nesaf er mwyn parhau i wneud cyfraniad cadarn ac effeithiol at waith Arolygiaeth Gofal Cymru wrth helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl ledled Cymru."


Dr Ruth Hussey, Cadeirydd newydd y Bwrdd Cynggori Cenedlaethol

Prif gyflawniadau ac uchafbwyntiau'r flwyddyn

- **Rhoi adborth** – Mae'r Bwrdd wedi rhoi adborth rheolaidd ar ein gwaith o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith, sy'n cynnwys adborth ar y canllawiau a gynhrychir gennym yn ogystal â phrosesau ar-lein a digidol.
- **Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid** – Roedd nifer o aelodau'r Bwrdd yn rhan o'n grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn bod yn rhan o'r gwaith o lunio cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau cynnydd rheolaidd ar y broses o ddatblygu'r cynllun.
- **Cynllun Strategol 2020-2023** – Daeth y Bwrdd ynghyd er mwyn helpu i lunio ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2020 a thu hwnt mewn cyfarfod ym mis Tachwedd 2019.
- **Lleisiau'r sector** – Ym mhob cyfarfod, mae'r aelodau yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf o'u priod sectorau, ac yn cyflwyno cwestiynau i'w hystyried gan AGC.

Edrychwn ymlaen at gyfraniadau cadarnhaol y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol dros y tair blynedd nesaf i'n helpu a'n herio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol newydd ar gyfer 2020-2023.

Gwasanaethau oedolion a phlant



"Rydym yn dechrau gweld buddiannau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gyda darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau i'r bobl."

Gillian Baranski, Prif Arolygydd, AGC

Gwasanaethau oedolion a phlant

Ein gwaith

Cofrestru

Y flwyddyn ddiwethaf, amlinellodd y Prif Arolygydd y gwaith sy'n ofynnol er mwyn ailgofrestru'r holl wasanaethau oedolion a phlant o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Yn ystod 2019-20 gwnaethom gwblhau'r broses o ailgofrestru gwasanaethau a oedd yn cynnwys:

- 381 o wasanaethau cartrefi gofal;
- 190 o wasanaethau cymorth cartref; ac
- 1 gwasanaeth llety diogel.

Yna aethom ati i ailgofrestru gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu a gwasanaethau lleoli oedolion. Hefyd, cyflwynodd Deddf 2016 wasanaeth rheoleiddiedig newydd: gwasanaethau eirioli. Mae gwasanaethau eirioli yn helpu pobl i leisio eu barn. Yng Nghymru, mae'n rhaid i wasanaethau eirioli sy'n cefnogi plant penodol i gynrychioli eu barn mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth gofrestru bellach o dan Ddeddf 2016.

Cofrestru gwasanaethau oedolion a phlant



Cofrestru

Gwnaethom gofrestru **722** o wasanaethau a chanslo **677** o wasanaethau.



Gweinyddu

gwnaethom ymdrin â **850** o newidiadau i gofrestriadau a ffyrdd o weithio gwasanaethau yn 2019–20...



Arolygu

Gwnaethom gynnal **1,186** o arolygiadau mewn gwasanaethau oedolion a phlant.



... a chawsom **24,821** o hysbysiadau.

Astudiaeth achos cofrestru

“Cawsom gais i gofrestru gwasanaeth cymorth cartref. Nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol a enwyd yn un o Gyfarwyddwyr y cwmni, ac er bod darpariaeth o fewn Deddf 2016 i rywun heblaw un o'r Gyfarwyddwyr fod yn Unigolyn Cyfrifol, nid oeddem o'r farn bod yr esboniad a roddwyd ynghylch pam na allai un o'r Gyfarwyddwyr gyflawni'r rôl hon yn ddigonol. Gwnaethom ymgysylltu â'r ymgeisydd a thrafod y mater yn helaeth. Gwnaethom nodi ein safbwynt mewn perthynas â sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei gynnal ar y lefel uchaf. Yn dilyn ein trafodaethau a rhai ymholiadau pellach, diwygiodd y darparwr yr Unigolyn Cyfrifol a enwyd i fod yn un o'r Gyfarwyddwyr. Ar ôl cynnal yr holl wiriadau addasrwydd a chyfweliad person addas, cymeradwywyd yr Unigolyn Cyfrifol a'r cais i gofrestru.”

Aelod o'r tîm cofrestru

Yn ogystal ag ailgofrestru gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, gwnaethom gofrestru nifer o wasanaethau newydd yn cynnwys 65 o wasanaethau cymorth cartref newydd a thair asiantaeth maethu newydd. Gwnaethom hefyd gofrestru un ganolfan breswyl i deuluoedd yng Nghymru sy'n cynnig asesiadau a gofal i deuluoedd sy'n agored i niwed – dyma'r ail wasanaeth a gofrestrwyd yng Nghymru o dan y ddarpariaeth hon.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y cartrefi gofal i blant, yn bennaf yn ardal De Cymru, gan gynyddu o 178 o wasanaethau yn 2019, i 204 ym mis Mawrth 2020.

Roedd hyn yn benllanw ymrwymiad anferth ar draws y sefydliad cyfan, gan weithio gyda darparwyr i drosglwyddo i'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae wedi bod yn arbennig o heriol i rai darparwyr y bu'n rhaid i'w strwythurau llywodraethu gael eu haddasu er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer Unigolion Cyfrifol. Mae ein tîm cofrestru wedi gweithio i gadarnhau un o brif nodau'r ddeddfwriaeth: sicrhau bod

sefydliadau darparwyr yn cynnal atebolrwydd ar y lefel uchaf.

Cyflawnir hyn drwy ddynodi uwch-swyddog addas yn y sefydliad yn Unigolyn Cyfrifol sydd â dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae hyn yn sicrhau bod y darparwr yn cymryd diddordeb gweithredol yn y gwasanaethau a ddarperir, a bod gan Fwrdd y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth ddull clir o gyfathrebu â llinell flaen y gwasanaethau, ac o'u goruchwyllo.

Effaith COVID-19 ar y broses gofrestru

Roedd pandemig COVID-19 yn her i ni wrth ystyried sut y gallem barhau i gofrestru gwasanaethau, gan gyflwyno capasiti ychwanegol angenrheidiol i'r sector. Gwnaethom addasu ein prosesau, gan ddefnyddio technoleg rithwir, a mabwysiadu dull cymesur ar gyfer ein gwaith. Gwnaethom lwyddo i gymeradwyo gwasanaethau newydd ac amrywiadau proses ar gyfer gwasanaethau sy'n dymuno cynyddu eu huchafswm capasiti.

Roedd yr addasiadau hyn hefyd yn golygu ein bod wedi llwyddo i barhau â'n swyddogaethau cofrestru drwy gydol y pandemig.

Pryderon

Derbyniodd y tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant 1,736 o bryderon yn 2019-20 o amrywiaeth o ffynonellau yn cynnwys y cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, staff y sector gofal a pherthnasau.

Mewn gwasanaethau oedolion a phlant, roedd y mwyafrif neu, 64% (1,117) o'r pryderon yn ymwneud â chartrefi gofal i oedolion, roedd 8% (139) yn ymwneud â chartrefi gofal i blant ac roedd 25% (441) yn ymwneud â gwasanaethau cymorth cartref. Codwyd y 3% (39) o'r pryderon sy'n weddill mewn perthynas â mabwysiadu, maethu, lleoliadau oedolion, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel.

Mewn gwasanaethau oedolion a phlant, roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â'r broses o arwain a rheoli gwasanaethau, ac ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i bobl.

Mewn gwasanaethau plant, mae un pryder cyffredin yn cael ei godi gan gymdogion lle mae cartref plant newydd wedi agor. Mae'n bwysig bod darparwyr yn ymgysylltu â'r gymuned, yr awdurdod lleol a'r heddlu ynghylch eu cynigion ac yn ystyried cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar leoliad y cartref.

Ein hymateb i bryderon

Caiff pob pryder a dderbynnir gan AGC ei adolygu gan arolygydd sy'n penderfynu pa gam gweithredu sydd angen ei gymryd. Gall hyn arwain at arolygiad cynnar, neu lle roedd AGC eisoes wedi bwriadu cynnal arolygiad, byddwn yn ystyried y themâu a godwyd yn y pryderon yn ystod yr ymweliad hwnnw. Lle cawsom bryderon sylweddol, gwnaethom sicrhau

y gwnaed atgyfeiriadau diogelu at yr awdurdodau lleol perthnasol. Buom yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r heddlu i archwilio'r materion hyn, gan rannu gwybodaeth a chymryd camau gweithredu lle y bo'n briodol.

Lle cafodd AGC bryderon ynghylch gwasanaethau a all fod yn gweithredu heb gofrestrriad, gwnaethom ymholiadau cychwynnol i ystyried a oedd angen eu cofrestru. Lle roeddem o'r farn y gallai fod angen cofrestru'r gwasanaeth, gwnaethom uwchgyfeirio hyn i'w drafod gan banel gwella a gorfodi lle gwneir penderfyniadau ynghylch pa gam y bydd AGC yn ei gymryd. Gallai hyn gynnwys penderfyniad i erlyn y darparwr. Yn 2019-20, gwnaethom ymchwilio i 30 o bryderon mewn perthynas â gwasanaethau oedolion a phlant sy'n gweithredu heb gofrestru. Cafodd 16 o'r rhain eu huwchgyfeirio i banel gwella a gorfodi, ac roedd wyth ohonynt yn ymwneud â phryderon ynghylch cartrefi gofal i blant oedd yn gweithredu heb gofrestru.

Datblygu fframwaith arolygu newydd

Drwy roi Deddf 2016 ar waith, cawsom gyfle i adolygu'r ffordd rydym yn gweithio. Gwnaethom ddatblygu canllawiau i helpu darparwyr i gydymffurfio â disgwyliaidur ddeddfwriaeth newydd. Drwy gynnal ein digwyddiadau rheolaidd i ddarparwyr ledled Cymru bu modd i ni gael safbwyntiau a barn darparwyr. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith arolygu newydd sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol. Gwnaethom roi'r fframwaith ar waith ar ddechrau 2019 a dangosodd yr adborth a gafwyd gan ddarparwyr ei fod yn rhoi amlinelliad o 'sut beth yw da' a dull arolygu clir.

Ar gyfer arolygwyr, mae'r fframwaith yn eu galluogi i sicrhau ffocws ar gyfer eu hymweliadau arolygu a threulio mwy o amser yn siarad â phobl.


Er bod yr adborth ar y fframwaith arolygu newydd wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, cafwyd barn gan ddarparwyr gwasanaethau byw â chymorth (sydd wedi cofrestru fel gwasanaethau cymorth cartref) nad yw'r dull bob amser yn rhoi darlun cyfan o'r canlyniadau ar gyfer y bobl maent yn eu cynorthwyo. Oherwydd yr adborth hwn, darparwyd hyfforddiant ychwanegol i'n staff yn y maes hwn. Byddwn yn monitro cynnydd mewn cydweithrediad â darparwyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau dros y flwyddyn i ddod.


Ein harolygiadau

Gwnaethom gynnal 1,186 o arolygiadau o wasanaethau oedolion a phlant i gyd, ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn gartrefi gofal.

Cwblhaodd ein tîm arolygu gwasanaethau plant 124 o arolygiadau o gartrefi gofal, canolfan breswyl i deuluoedd, pum ysgol breswyl a'r unig lety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ar y cyfan, gwelsom fod y gwasanaethau'n cynnig gofal o ansawdd da gyda chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Nifer yr arolygiadau o wasanaethau oedolion a phlant





Trosolwg cenedlaethol o'r gofal i blant sydd wedi bod mewn gofal yng Nghymru

Ym mis Medi 2019 gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad thematig o gartrefi gofal i blant yng Nghymru.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y meysydd allweddol canlynol.

- Dylid ystyried gofal preswyl fel dewis cadarnhaol i blant, yn hytrach na'r dewis pan fetho popeth arall.
- Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn cael gofal a chymorth o ansawdd da. Cawsant y canlyniadau gorau pan roedd gwasanaethau yn defnyddio modelau gofal cydnabyddedig a chyfannol sy'n cynnwys therapi ac addysg.
- Chwalodd lleoliadau nifer o'r plant, yn aml oherwydd asesiadau cyn derbyn gwael ac anallu'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion y plant.
- Nid oedd nifer o'r plant yn mynd i'r ysgol ac roedd hynny'n wir ers cyfnod sylweddol i rai ohonynt.

Ni welsom welliant sylweddol yn y meysydd hyn yn ystod ein harolygiadau ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Yn ystod cyfyngiadau COVID-19, nododd adborth o'n sgysiau rheolaidd â daprarwyr rywfaint o welliannau gyda llai o blant yn mynd ar goll o wasanaethau a gwell ymgysylltu a chydberthnasau â staff.

Y maes pryder mwyaf sylweddol yn ein hadolygiad oedd y cynnydd yn nifer y plant sy'n mynd ar goll o ofal ac, mewn rhai amgylchiadau, roedd hyn wedi arwain at gynnydd yn y risg o gam-fanteisio a bregusrwydd oherwydd troseddau. Mewn rhai sefyllfaoedd, gwelsom nad oedd y darparwyr yn rhagweithiol yn eu hymateb ac ni fuont yn gweithio i ddatblygu atebion gyda phlant er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon diogelwch hyn.

Yn dilyn ein hadolygiad, roeddem yn ffodus o allu cydweithio â'r heddlu yn y maes pwysig hwn. Roedd hyn yn cynnwys secondio swyddog yr heddlu i AGC i ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu ein cydberthnasau gweithio a rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â phlant sy'n mynd ar goll o gartrefi gofal. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia

I gyd-fynd ag adolygiad ein tîm arolygu awdurdodau lleol o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn, cynhaliodd y tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia.

Cafodd yr adolygiad ei ysgogi a'i lywio gan y canlynol:

- Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22 Llywodraeth Cymru, sy'n nodi bod gan bobl yr hawl i fyw'n dda mewn cartref gofal;
- Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg – Cymdeithas Alzheimer Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn 2018 a argymhellodd y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydnabod bod diffyg gofal yn Gymraeg i'r rhai sydd ei angen yn gyfystyr â gofal gwael a all gael effaith niweidiol ar bobl;
- Adroddiad "Defnyddio Meddyginiaeth Wrthseicotig mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru 2018" a nododd bryderon sylweddol ynghylch y defnydd amhriodol o feddyginiaeth wrthseicotig mewn lleoliadau cartrefi gofal;
- Adolygiad AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o'r cymorth gofal iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru yn 2018.

Ceir crynodeb o'n canfyddiadau isod.

- Ar y cyfan, roedd y bobl a'u teuluoedd yn gadarnhaol ynghylch y gofal a ddarperir yn y mwyafrif o'r gwasanaethau.
- Roedd angen gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.
- Roedd angen gwella hyfforddiant i staff ym maes dementia ynghyd â'r ystyriaeth a roddir i'r amgylchedd y mae pobl yn byw ynddo oherwydd natur gymhleth eu hanghenion.
- Roedd rheoli meddyginiaethau yn faes y dylid ei wella yn benodol mewn perthynas â meddyginiaeth wrthseicotig. Bydd secondio fferyllydd

i AGC yn ystod 2020-21 yn rhoi cyfle i feithrin cydberthynas â chydweithwyr ym maes fferylliaeth er mwyn helpu i wella gwasanaethau.

- Roedd y darparwyr yn croesawu technoleg newydd er mwyn gwella gwasanaethau.
- Gwelsom fod angen gweithio i wella'r broses o ryddhau cleifion sy'n byw gyda dementia o'r ysbyty.

Tynnodd pandemig COVID-19 sylw at bwysigrwydd y tri phwynt olaf hyn: cafodd pobl gefnogaeth i gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid drwy ddefnyddio technoleg. Cyflwynodd ein galwadau â darparwyr yn ystod y cyfnod hwn angen clir i wella prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Enghraifft o arferion da mewn cartref gofal

“Cartref gofal bach oedd y gwasanaeth i bobl ag anableddau dysgu/ problemau iechyd meddwl, ac nid oedd yn wasanaeth a nodwyd ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, mae un o'r bobl sy'n byw yno wedi datblygu dementia. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi anfon rhai aelodau o'r staff ar gwrs tridiau ar ymwybyddiaeth o ddementia er mwyn sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth gynhwysfawr o'r problemau sy'n gysylltiedig â gofal dementia. Hefyd, mae gan y gwasanaeth gynllun gofal dementia cynhwysfawr a phersonol ar waith. Mae'r cynllun yn ystyried pob agwedd ar fywyd pob dydd ac mae'n nodi effaith dementia'r unigolyn ar bob un. Yna, roedd yn rhoi cyngor a chanllawiau clir i'r staff ar sut i gefnogi'r unigolyn. Roedd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar gryfderau a chynnal sgiliau annibynnol.”

Inspector, AGC

Enghraifft o arferion da mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg

“Gwelsom bosteri ‘mae pob gair yn cyfrif’ yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Roedd y rhain yn cynnwys lluniau o'r preswylwyr a dyfyniadau ynghylch pam mae gallu sgwrsio yn Gymraeg yn bwysig iddyn nhw.”

Inspector, AGC

Arferion da yn ymwneud â gwasanaeth cymorth cartref

“Caiff y bobl sy'n manteisio ar brosiect Bywydau Bodlon ddewis a rheolaeth dros eu bywydau a'u cefnogi i fod yn iach. Bydd amseroedd a hyd galwadau yn cael eu penderfynu gan yr unigolyn, a bydd yn cytuno ar ei anghenion a'i ddewisiadau o ran ffordd o fyw ar y cyd â gweithiwr allweddol o fewn yr oriau a neilltuwyd bob wythnos. Cafodd y bobl gymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn gwella eu canlyniadau personol. Nifer bach a chyson o weithwyr gofal oedd yn darparu eu gofal. Rhoddwyd ystyriaeth i baru pobl â'r gweithiwr allweddol gyda'r nod o feithrin cydberthnasau da a rhyngweithio brwd. Roedd y staff cymorth yn parchu ac yn cadarnhau dewisiadau lle bynnag y bo modd. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cynnwys a bod y gofal yn canolbwyntio ar nodau a dyheadau'r unigolyn. Roedd y bobl yn cael cefnogaeth drwy dechnoleg gynorthwyol. Gwelsom beiriant cyflenwi meddyginiaeth a oedd wedi'i lenwi gan fferyllfa a theclyn olrhain GPS, i gefnogi a chynnal diogelwch ac annibyniaeth un unigolyn. Roedd tystiolaeth dda hefyd o ddull amlddisgybledig o weithredu. Ar ôl siarad â phobl ac adolygu sampl o ddogfennaeth, gwelsom fod y dulliau cyfathrebu rhwng y gwasanaeth a theuluoedd yn sicrhau bod unigolion yn cael eu hatgyfeirio'n amserol at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Dywedodd darparwyr gwasanaethau wrthym y byddai gweithwyr allweddol yn gwneud apwyntiadau iechyd ar ran yr unigolyn, yn mynd gydag ef i'r apwyntiad ac yna'n rhannu gwybodaeth ag aelodau'r teulu ar ei ran. Down i'r casgliad bod pobl sy'n derbyn gwasanaeth, fel rhan o brosiect Bywydau Bodlon, yn profi llesiant cadarnhaol am fod y staff gofal yn deall eu hanghenion ac yn eu diwallu.”

Arolygydd, tîm gwasanaethau oedolion a phlant

Enghraifft o arferion da mewn cartref gofal

“Yn bersonol, rwyf wedi gweld cynnydd yn nifer y cartrefi gofal sydd wedi cyflwyno prosesau cynllunio gofal electronig gyda dyfeisiau â llaw. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn hefyd wedi cyflwyno systemau meddyginiaeth electronig. Maent yn nodi canlyniadau cadarnhaol yn y naill achos a'r llall: llai o gamgymeriadau wrth roi meddyginiaeth, cyflenwad gwell o stoc meddyginiaeth (heb ormodedd y mae angen ei ddychwelyd i gael ei ddinistrio), mae'r staff yn cael mwy o amser gyda'r preswylwyr drwy nodi'r gofal a roddir ar ddyfeisiau â llaw. Mae llai o waith papur a gall rheolwyr wirio unrhyw dasgau a gollwyd pan na fyddant ar y safle, a gellir llunio adroddiadau i nodi os na chaiff gofal ei roi neu os bydd yn hwyr”

Arolygydd, tîm gwasanaethau oedolion a phlant

Lle na fu'n bosibl i'r bobl fynd allan oherwydd y pandemig, dywedodd rhai gwasanaethau wrthym eu bod wedi datblygu amrywiaeth newydd o ddulliau o gynnal gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys anifeiliaid anwes i'w hanwesu

a phartion â themâu – rhywbeth i'r bobl edrych ymlaen ato bob wythnos er mwyn codi eu hysbryd. Bydd yn bwysig i'r gwasanaethau fyfyrion ac ystyried sut y byddant yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r dull hwn.

Sicrhau gwelliant


Sicrhau gwelliant – Gwasanaethau Oedolion a Phlant

Yn 2019-20, gwelsom nad oedd

 **109** o wasanaethau yn bodloni'r gofynion cyfreithiol


a gwnaethom gyhoeddi


 **300** o hysbysiadau.

 Cyhoeddwyd y mwyafrif o'r rhain i wasanaethau cartrefi gofal.



Cadarnhaodd ein hymweliadau dilynol bod

 **72%** % o'r darparwyr wedi cymryd camau priodol.

 Yn 2019-20, gwnaethom gyhoeddi **7** Hysbysiad Gwelliant.

O'r rhain:

- Ar gyfer dau wasanaeth, tynnwyd yr Hysbysiadau Gwelliant yn ôl pan wnaeth y darparwyr y newidiadau gofynnol a gwelsom ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl o ganlyniad i hynny.
- Ni chymerodd un gwasanaeth gamau digonol a gwnaethom ganslo ei gofrestrriad.
- Gwnaethom ganslo dynodiad un Unigolyn Cyfrifol.
- Canslodd un darparwr ei gofrestrriad ei hun ar ôl i ni gyhoeddi hysbysiad.
- Roedd y ddau wasanaeth arall y cyhoeddwyd hysbysiadau iddynt yn aros am y canlyniad ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Rydym yn sicrhau bod darparwr yn addas i ddarparu gwasanaeth yn ystod y cam cofrestru drwy gynnal cyfres o archwiliadau. Ar ôl y cam cofrestru, rydym yn arolygu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu yn unol â'u Datganiad o Ddiben ac â'r rheoliadau.

Mae ein llwybr gwella a gorfodi yn nodi'r camau gweithredu a gymerir gennym pan fydd gwasanaeth yn methu â darparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaeth.

Byddwn yn hysbysu'r darparwr a'r cyhoedd pan fyddwn yn canfod methiannau mewn arolygiad. Pan fydd y rhain yn effeithio ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu'n cyflwyno risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y bobl, byddwn yn nodi hyn yn glir yn ein hadroddiadau ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr wneud gwelliannau o fewn terfyn amser a bennwyd.

Yn 2019-20, gwelsom nad oedd 109 o wasanaethau yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, a chyhoeddwyd 300 o hysbysiadau diffyg cydymffurfio gennym i'r gwasanaethau hyn. Cyhoeddwyd y mwyafrif o'r rhain i wasanaethau cartrefi gofal.

Pan fyddwn yn nodi methiannau, byddwn yn cynnal arolygiad pellach er mwyn sicrhau bod y darparwyr wedi gwneud y gwelliannau perthnasol. Cadarnhaodd ein hymweliadau dilynol bod 72% o'r darparwyr wedi cymryd camau priodol.

Roedd ychydig dros hanner yr hysbysiadau a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r gwaith o arwain a rheoli gwasanaethau (cyhoeddwyd 156 o hysbysiadau). Mae arwain a rheoli yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys pob agwedd ar lywodraethu gwasanaeth: ansawdd ac archwilio,

lefelau staffio, recriwtio a hyfforddiant yn ogystal â goruchwyllo'r gwaith o redeg gwasanaeth o ddydd i ddydd. Ymysg y themâu mwyaf cyffredin a nodwyd yn ystod 2019-20 roedd:

- monitro ansawdd systemau nad oeddent yn ddigon cadarn, yn cynnwys adolygu'r gwasanaeth gan yr Unigolyn Cyfrifol;
- niferoedd staffio annigonol i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dewisol;
- hyfforddiant i staff heb gael ei ddiweddarau'n rheolaidd neu nid oedd yn berthnasol i'r gwaith o gefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- gwiriadau recriwtio ddim yn cael eu cwblhau cyn y dyddiad dechrau, nid oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u diweddarau o fewn tair blynedd neu roedd gwybodaeth ar goll o ffeiliau'r staff.

Rydym o'r farn bod arwain a rheoli yn hollbwysig i ddarparu gofal diogel o ansawdd da. Lle mae methiannau yn y gwaith o arwain a rheoli gwasanaeth, yn aml byddwn yn canfod problemau mewn meysydd eraill.

O'r hysbysiadau eraill a gyhoeddwyd, roedd 106 yn ymwneud â gofal a chymorth, er enghraifft wrth gynllunio gofal y bobl.

- Nid oedd cynlluniau personol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, yn aml nid oeddent yn cael eu hadolygu, weithiau nid oedd cynllun yn bodoli, nid oedd canlyniad neu nid oedd yn canolbwyntio ar y unigolyn.
- Roedd y cofnodion rheoli meddyginiaeth a monitro dyddiol yn anghyflawn.

Down i'r casgliad, lle mae methiannau yn y gwaith o reoli a goruchwyllo gwasanaeth, bod hyn yn effeithio yn aml ar y gofal a'r cymorth a gaiff y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, er mwyn datblygu a hyrwyddo arferion gweithio gwell ar lefel gweithwyr gofal ac, yn bwysig, ar lefel arwain.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi saith Hysbysiad Gwelliant. Mae'r rhain yn rhan o'n pwerau

newydd ar gyfer gorfodi o dan Ddeddf 2016 a byddwn yn cyhoeddi'r rhain pan fydd pryderon difrifol ynghylch methiant darparwr gwasanaeth neu Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth. Gall cyhoeddi Hysbysiad Gwelliant arwain at ganslo cofrestriad gwasanaeth, Unigolyn Cyfrifol (yn gweithredu ar ran y darparwr) neu ddarparwr y gwasanaeth.

Astudiaeth achos

“Gwnaethom arolygu gwasanaeth a chyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â gofal a chymorth, staffio ac arwain a rheoli. Cynhaliwyd ail arolygiad ac ni welsom lawer o welliant os o gwbl. Cynhaliwyd cyfarfod â'r darparwr i nodi'r pryderon sylweddol oedd gennym. Oherwydd canlyniadau gwael parhaus i'r bobl, gwnaethom gyhoeddi Hysbysiad Gwelliant a gosod cyfyngiad yn atal y gwasanaeth rhag derbyn rhagor o bobl.

Pan wnaethom ddychwelyd i arolygu, gwelsom fod y darparwr wedi gwneud gwelliannau digonol yn y gwasanaeth i ddileu'r Hysbysiad Gwelliant a chaniatáu i'r cartref dderbyn pobl. Rydym yn parhau i fonitro'r cartref er mwyn sicrhau bod y darparwr yn cynnal y gwelliannau hyn.”

Arolygydd, Tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant

Y 12 mis nesaf

- Byddwn yn treialu'r broses o weithio gyda darparwyr sydd â nifer o wasanaethau ar lefel gorfforaethol.
- Byddwn yn rhannu canlyniadau ein harolygiad o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia, gan roi systemau ar waith i weithredu argymhellion o'r adolygiad.
- Byddwn yn gwella ein dulliau o ymgysylltu â phobl er mwyn llywio ein gweithgarwch arolygu.
- Byddwn yn cynnal prosiect yn canolbwyntio ar adrodd ar ganlyniadau i bobl sy'n byw mewn gwasanaethau byw â chymorth.

Gwasanaethau gofal plant a chwarae



“Ni allwn danbriso pwysigrwydd gwasanaethau gofal plant a chwarae o ran helpu plant i gael dechrau da mewn bywyd.”

Margaret Rooney, Dirprwy Brif Arolygydd, AGC

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Ein gwaith

Cofrestru

Nifer y gwasanaethau gofal plant rydym yn eu rheoleiddio



I gael rhagor o wybodaeth ac i gael mynediad at ein adnodd data rhyngweithiol newydd [cliciwch yma](#).

Ar unrhyw adeg benodol, mae uchafswm o ran nifer y lleoedd gofal plant a chwarae mewn gwasanaethau cofrestredig yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fydd cyfran o'r lleoedd hyn ar gael am fod cofrestriad y gwasanaeth wedi cael ei atal dros dro. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn am fod y darparwr wedi penderfynu atal

ei gofrestrriad ei hun dros dro. Gall un enghraifft fod yn gynllun chwarae mynediad agored dros yr haf sy'n atal ei gofrestrriad dros dro pan na fydd yn gweithredu. Mewn lleiafrif o achosion, gall AGC orfodi cyfnod atal dros dro fel rhan o'i gam gorfodi.

	Nifer y gwasanaethau cofrestredig	Uchafswm lleoedd mewn gwasanaethau cofrestredig	Gwasanaethau wedi'u hatal dros dro	Lleoedd mewn gwasanaethau sydd wedi'u hatal dros dro	Lleoedd sydd ar gael
Mawrth 2019	4,073	83,430	331	4,414	79,016
Mawrth 2020	3,966	84,325	368	5,628	78,697
Gwahaniaeth	↓107	↑895	↑37	↑1,214	↓319

Gan ystyried gwasanaethau sydd wedi'u hatal dros dro, roedd nifer y lleoedd gofal plant a chwarae a oedd ar gael yng Nghymru ar 31 Mawrth 2020 wedi gostwng 319 o leoedd i 78,697. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd o 895 yn uchafswm y lleoedd mewn gwasanaethau cofrestredig ac mae o ganlyniad i'r lleoedd a gollwyd mewn gwasanaethau sydd wedi'u hatal dros dro. Mae'n rhy gynnar i ddod i'r casgliad bod y cynnydd yn nifer y gwasanaethau sydd wedi'u hatal dros dro o ganlyniad i'r pandemig a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, byddwn yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddeall effaith y pandemig ar y sector.

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrodd 334 o wasanaethau newydd ag AGC. Gwasanaethau gofal dydd oedd y mwyafrif o'r rhain (226) a gwarchodwyr plant oedd y gweddill (108). Yn ystod y flwyddyn, canslodd 400 o wasanaethau eu cofrestriad ag AGC gan adael y farchnad. Mae'r achosion hyn o gau yn rhannu'n gyfartal bron rhwng lleoliadau gofal dydd a gwarchodwyr plant.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd gostyngiad cymharol yn nifer y gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru ag AGC, gyda mwy yn gadael y farchnad na'r nifer a gafodd eu derbyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhan o dueddiad hirdymor, gyda nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru yn gostwng bron 18% ers 2014.

Cefnogi darparwyr yn ystod COVID-19


Mae'r broses o gyflwyno AGC Ar-lein yn y sector gofal plant a chwarae wedi galluogi darparwyr gofal plant yng Nghymru i gyflwyno ceisiadau ar gyfer cofrestru ac amrywiadau yn ddigidol. Roedd hyn yn amhrisiadwy yn ystod pandemig COVID-19, oherwydd cyn hyn, cyflwynwyd ceisiadau i gofrestru mewn copi caled. Mae'r system ar-lein wedi ein galluogi i barhau i dderbyn, asesu a chymeradwyo ceisiadau. Roedd ein gwaith yn ystod y pandemig yn canolbwyntio ar gymeradwyo gwasanaethau newydd i'r farchnad er mwyn darparu'r lleoedd sydd eu hangen i ofalu am blant gweithwyr allweddol, yn ogystal â nifer sylweddol o amrywiadau lle roedd darparwyr wedi gwneud cais i gynyddu eu uchafswm lleoedd.

Astudiaeth achos

“Yn dilyn y llifogydd ofnadwy yn ne Cymru ym mis Chwefror 2020, gadawyd un gwasanaeth gofal dydd heb safle addas i ddarparu ei wasanaeth. Roedd teuluoedd yn dibynnu ar y gwasasnaeth i'w galluogi i barhau i weithio. Cawsom ein hysbysu gan y darparwr ei fod wedi cael mynediad i safle arall, a'i fod am barhau i ddarparu gwasanaeth i deuluoedd o'r safle hwn. Yn sgil y newid cyfeiriad, roedd yn ofynnol iddo gyflwyno cais newydd i gofrestru. Gwnaethom drafod hyn â darparwr y gwasanaeth a chytuno y byddem yn prosesu'r cais cyn gynted ag y bo modd a buom yn gweithio gyda'r darparwr i gael y wybodaeth a'r sicrwydd roedd eu hangen arnom i gymeradwyo'r cofrestriad yn y safle newydd. Drwy gydweithio fel hyn, llwyddom i weithio mewn modd cymesur a chanlyniad hyn oedd bod y ddarpariaeth i'r plant a'r teuluoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wedi gallu parhau.”

Aelod o'r tîm cofrestru

Nifer yr arolygiadau gwasanaethau gofal plant a chwarae



Pryderon

Fel y dywedasom yn gynharach, mae pryderon yn rhan bwysig o'n gwaith. Mae rhieni, perthnasau, ymwelwyr, staff a chymdogion ymysg y rheini a all godi pryder gyda ni. Mae pryderon yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i ni a gallant godi cwestiynau ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaeth. Mae'r arolygwyr yn adolygu pob pryder a godir. Gall hyn arwain at arolygiad cynnar; llywio'r arolygiad nesaf; neu gallwn wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol fel y brif asiantaeth ar gyfer diogelu. Pan fydd arolygiad yn digwydd, bydd yr adroddiad arolygu fel arfer yn adlewyrchu'r materion a godwyd yn y pryder.

Yn 2019-20, daeth 439 o bryderon i law am 322 o wasanaethau gofal plant a chwarae (roedd gan 75 o wasanaethau fwy nag un pryder). Roedd 77% (337) o'r rhain mewn perthynas â gwasanaethau gofal dydd. Roedd y 23% (102) sy'n weddill yn ymwneud

â gwarchodwyr plant. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn ymwneud â'r gwaith o arwain a rheoli'r gwasanaeth (157), a'r categori uchaf nesaf oedd pryderon ynghylch gofal a datblygiad plant oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Yr ymateb mwyaf cyffredin i bryder oedd arolygu yn yr arolygiad nesaf a drefnwyd neu, lle y bo angen, symud yr arolygiad i ddyddiad cynharach.

Gwnaethom ymchwilio i 10 pryder mewn perthynas â gwasanaethau gofal plant a chwarae yn gweithredu heb eu cofrestru gan eu huwchgyfeirio i gyfarfod o banel gwella a gorfodi.

O'r deg darparwr a oedd yn gweithredu heb gofrestru, ymchwiliwyd i 9 a chanfuwyd nad oedd angen cofrestru arnynt. Canfuwyd bod un gwasanaeth yn gweithredu heb gofrestru. Yn dilyn hynny, cyflwynodd y gwasanaeth hwn gais ac mae bellach wedi'i gofrestru.

Ein harolygiadau

Mwy o fanylion am weithgarwch arolygu – Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae 2019-2020



Cofrestru

Gwnaethom gofrestru **334** o wasanaethau gofal plant a chwarae a chanslo **400** o wasanaethau.



Gweinyddu

Gwnaethom ymdrin â **2,121** o newidiadau i gofrestriadau a ffyrdd 'o weithio yn 2019-20...



Arolygiad

4 arolygiad ar benwythnos.

Gwnaethom gynnal **1,111** o arolygiadau i gyd.

... cawsom **6,273** o hysbysiadau.



O fis Ebrill 2019, gwnaethom ddechrau cyhoeddi graddau mewn adroddiadau arolygu ar gyfer yr holl arolygiadau llawn o wasanaethau gofal plant a chwarae. Dyfernir gradd am bob un o'r pedair thema (chwe thema ar gyfer arolygiadau ar y cyd ag Estyn).

Y pedair thema yw:

- llesiant;
- gofal a datblygiad;
- yr amgylchedd; ac
- arweinyddiaeth a rheolaeth.

Caiff themâu ychwanegol, sef Addysg, ac Addysgu ac Asesu eu hychwanegu ar gyfer arolygiadau ar y cyd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymgynghori â darparwyr ac eraill ar ganllawiau ar gyfer graddau ac ar adroddiadau arolygu ar eu newydd wedd. Gwnaethom egluro ein bod yn bwriadu ysgrifennu adroddiadau byrrach, mwy cryno, sy'n cyfleu ein safbwyntiau mewn Cymraeg neu Saesneg clir. Gwnaethom ofyn am adborth ar dempled drafft ar gyfer ein hadroddiadau arolygu ac am gyngor ar y ffordd orau o gofnodi'r graddau a ddyfernir mewn arolygiad.

Ar y cyfan, roedd pobl yn croesawu ein cynigion ac roeddent yn awyddus i'r graddau gael lle ar ddechrau ein hadroddiadau. Byddwn yn cyflwyno ein templed newydd ar gyfer adroddiadau yn ystod haf 2020.

Cynhaliwyd 1,111 o arolygiadau yn ystod 2019-20. Ymysg y rhain roedd:

- 678 o arolygiadau o leoliadau gofal dydd
- 433 o warchodwyr plant.

Gwnaethom adolygu'r graddau adolygu yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2019-20¹. Nid yw nifer yr adroddiadau arolygu yr un fath â nifer

yr arolygiadau a gynhaliwyd gan fod oedi rhwng dyddiad yr arolygiad a dyddiad cyhoeddi adroddiadau. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau raddau 'digonol' neu 'da' ar gyfer un neu fwy o'r themâu arolygu. Llwyddodd tua 8% o'r gwasanaethau i gael gradd 'rhagorol' ar gyfer un neu fwy o'r themâu arolygu. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd bod 36 o'r gwasanaethau (ychydig dros 3% o gyfanswm y gwasanaethau a arolygwyd) wedi cael gradd 'gwael' ar gyfer un neu fwy o'r themâu.

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaethom ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar allu lleiafrif bach o'r gwasanaethau (22) i gael gradd 'rhagorol' yn y pedwar thema arolygu. Gwelwyd bod y gwasanaethau rhagorol hyn yn cynnwys un – a mwy fel arfer – o'r nodweddion canlynol.

1. Arweinyddiaeth gref gan y Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol.
2. Perchenogaeth ar y cyd gan y staff ac arweinwyr y gwasanaeth.
3. Ethos a diwylliant cryf o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
4. Gweithgareddau cymhellol wedi'u cynllunio.

Yn ystod 2019-20, gwnaethom barhau â'n rhaglen o arolygiadau ar y cyd ag Estyn. Gyda'n gilydd, rydym yn arolygu gofal ac addysg plant mewn lleoliadau nas cynhelir sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser. Cynhaliwyd 83 o arolygiadau ar y cyd. Ceir un tîm arolygu a gaiff ei arwain naill ai gan AGC neu Estyn, ac sy'n ystyried chwe thema arolygu yn hytrach na'r pedair thema a arolygir gan AGC fel arfer. Yn dilyn yr arolygiad, llunnir un adroddiad arolygu, yn nodi graddau ar gyfer pob un o'r chwe thema. Gwnaethom adolygu ein dull o gynnal arolygiadau ar y cyd yn ystod y flwyddyn a rhoi mwy o hyfforddiant i dimau arolygu ym mis Medi 2019.

¹ Nid yw nifer yr adroddiadau arolygu a gyhoeddir yr un peth â nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd gan fod oedi rhwng archwilio a chyhoeddi adroddiadau.

Enghraifft o arferion da

Roedd gan un meithrinfa yng Nghonwy sawl enghraifft o arferion cadarnhaol. Mae'r feithrinfa wedi ennill gwobr am weithredu menter o'r enw 'Spread the Happiness'.

Roedd y canlynol ymysg y gweithgareddau a gynhaliwyd.

- Bu'r plant yn pobi cacennau bach yn y feithrinfa a'u rhannu fel rhoddion i fusnesau yn yr ardal leol, gan annog y plant i fod yn garedig i eraill. Arweiniodd hyn at fusnesau lleol yn rhoi deunydd i'r plant ei ddefnyddio wrth chwarae.
- Gwahoddwyd rhieni i 'ddigwyddiad llesiant' lle cawsant driniaethau 15 munud o hyd gan wasanaethau harddwch a llesiant lleol. Creodd hyn naws cadarnhaol yn y feithrinfa a'r gymuned ehangach, gan helpu i feithrin partneriaethau cryf yn yr ardal leol a gyda rhieni.

Mae'r feithrinfa hefyd wedi cyflwyno chwarae 'darnau rhydd' ym mhob ystafell chwarae i bob oedran. Cafodd hyd yn oed blant ifanc iawn gyfle i archwilio darnau rhydd a chymryd rhan mewn chwarae ag elfen mwy o risg, fel defnyddio/archwilio teclynnau go iawn ac adeiladu coelcerthi. Helpodd hyn y plant i ddysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr a meithrin hyder ac annibynniaeth unigol.

Enghraifft o arferion da

Caiff y plant sy'n mynd i Gylch Meithrin yng Ngheredigion gyfleoedd yn aml i ymweld â lleoliadau yn yr ardal er mwyn dysgu mwy am fywyd a gwaith pobl yn eu cymuned. Mae'r lleoliad yn gwneud y gorau o'i gydberthynas â'r gymuned leol i greu profiadau dysgu i'r plant. Mae llais y plentyn yn rhan bwysig o'r broses o gynllunio'r profiadau dysgu hyn. Mae'r plant yn cyfrannu at y broses gynllunio drwy greu mapiau meddwl, ac mae ymarferwyr yn rhoi eu syniadau ar waith.

Sicrhau gwelliant

Fel yr esboniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi lle y bo angen i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Yn 2019-20, gwelsom nad oedd 60 o wasanaethau gofal plant a chwarae yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a chyhoeddwyd 123 o hysbysiadau diffyg cydymffurfio gennym. Cyhoeddwyd y mwyafrif o'r hysbysiadau hyn, 73% (90) i wasanaethau gofal dydd a'r gweddill 27% (33) i warchodwyr plant. Gwnaethom ddychwelyd at y gwasanaethau hyn o fewn chwe mis i'r arolygiad gwreiddiol

a chanfod bod 85% ohonynt wedi gwneud gwelliannau.

Mewn gwasanaethau gofal plant a chwarae, roedd mwyafrif helaeth, 73% (90) o'r hysbysiadau a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r broses o arwain a rheoli gwasanaethau. Roedd 14% (17) o'r hysbysiadau diffyg cydymffurfio yn ymwneud â gofal a datblygiad ac roedd 11% (14) arall yn ymwneud â materion amgylcheddol.

Yn 2019-20, gwnaethom orfodi dau ddarparwr gofal plant a chwarae i ganslo eu cofrestrriad.

Sicrhau gwelliant

Yn 2019 - 2020, gwelsom nad oedd



60

o wasanaethau yn bodloni'r gofynion cyfreithiol

a gwnaethom gyhoeddi



123

o hysbysiadau.



Cyhoeddwyd y mwyafrif o'r rhain i wasanaethau cartrefi gofal.



Cadarnhaodd ein hymweliadau dilynol bod



85%

% o'r darparwyr wedi cymryd camau priodol.

Effaith gadarnhaol y broses arolygu

“Roedd gan leoliad gofal dydd llawn hanes o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â chadw cofnodion; cwblhau archwiliadau addas ar staff; cymarebau staff; a pholisïau a gweithdrefnau aneffeithiol. Arweiniodd hyn at arolygiadau â phwyslais penodol a chyfarfod â'r darparwr. Yn dilyn yr arolygiad llawn diwethaf, gwelodd yr arolygydd fod ymdrechion y darparwr i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfiaeth ac i wella'r gwaith o arwain a rheoli wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant. Mae'r adroddiad arolygu yn nodi bod yr arweinwyr wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran cadw cofnodion a rheolaeth gyffredinol o'r gwasanaeth. Gwellodd eu gradd ar gyfer thema 'arweinyddiaeth a rheolaeth' o radd digonol i da.”

Arolygydd gofal plant a chwarae

Y 12 mis nesaf

Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel ac yn darparu gofal o ansawdd da sy'n cefnogi datblygiad emosiynol, meddyliol a chymdeithasol plant. Mae ein harolygiadau yn ganolog i gyflawni'r nod hwn ynghyd â'r ffordd rydym yn ystyried pryderon a gaiff eu codi gyda ni ac ymateb iddynt. Rydym hefyd am wneud popeth o fewn ein gallu i weithio mewn partneriaeth â'r sector i gefnogi gwelliant o ran argaeledd a pherfformiad gwasanaethau.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom nodi ein paratodau i wella ein gwasanaethau ar-lein ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae. Y flwyddyn hon, gwnaethom sefydlu tîm prosiect sy'n cydweithio â staff AGC a phartneriaid allanol, gan roi cyfleoedd rheolaidd i roi mewnbyn o ansawdd i'r system a'r cynnyrch newydd. Ar 6 Ionawr 2020, aeth AGC Ar-lein yn fyw er mwyn i ddarparwyr gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, amrywiadau i amodau

cofrestru a chyflwyno hysbysiadau.

Dilynodd y broses o wneud cais ar-lein i gofrestru gwasanaethau ar 20 Chwefror 2020. Hyd yma, mae 98% o ddarparwyr gofal dydd a 91% o warchodwyr plant wedi sefydlu eu cyfrifon ar-lein gydag AGC. Cyflwynodd 3,113 o ddarparwyr Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi'i gwblhau – mae hyn yn cyfrif am 88% o'r nifer o wasanaethau cymwys (nid oedd yn ofynnol i wasanaethau wedi'u hatal gyflwyno datganiad). Mae darparwyr, sefydliadau cefnogol a staff AGC wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i AGC Ar-lein.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn y gwneud rhagor o newidiadau i AGC Ar-lein ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae a byddwn yn gofyn i ddarparwyr ddiweddarau eu datganiad yn 2021. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad trosolwg ar y sector gofal plant a chwarae a fydd yn ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r graddau a gyhoeddwyd a'r wybodaeth am wasanaethau a gasglwyd drwy ddatganiadau 2020.

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol


“Lles, pobl, partneriaethau ac atal yw canolbwynt ein
gwaith gydag awdurdodau lleol.”

Vicky Poole, Dirprwy Brif Arolygydd, AGC

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Rydym yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ardaloedd awdurdodau lleol



Ein harolygiadau

Gwnaethom gynnal yr arolygiadau canlynol o wasanaethau awdurdodau lleol.



1 Adolygu a gwerthuso perfformiad

- Gweithgarwch ymgysylltu ag oedolion hŷn mewn 15 o awdurdodau lleol lle na chynhaliwyd arolygiad o wasanaethau i oedolion hŷn.
- Cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda phenaethiaid y gwasanaethau plant ac oedolion ym mhob awdurdod lleol.
- 22 o lythyrau adolygu perfformiad blynyddol awdurdodau lleol.



2 Rhaglen arolygu

- Saith arolygiad ar y cyd ag AGIC yn canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth a gwasanaethau ataliol i bobl 65 oed a throsodd.
- Pedwar arolygiad o wasanaethau plant yn canolbwyntio ar help cynnar, gofal a chymorth a threfniadau phontio ar gyfer plant anabl.
- Gwnaethom gyfrannu at adolygiad AGIC o'r tri thîm iechyd meddwl cymunedol.
- Un arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (JICPA).
- Gweithgarwch gwaith arolygu â phwyslais penodol mewn adrannau plant ac oedolion pob awdurdod lleol.
- Arolygiad ar y cyd o Wasanaeth Troseddwy'r Ifanc gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.



3 Ymateb i bryderon sylweddol a difrifol

- Trefniadau monitro ychwanegol lle rydym wedi nodi pryderon mewn awdurdod lleol.



4 Cydweithio

- Cyfarfodydd adolygu gwaith sicrwydd ac asesiadau risg gydag arolygiaethau eraill.
- Cydweithio â sefydliadau partner fel Gofal Cymdeithasol Cymru i ysgogi gwelliannau yn y sector.
- Cydweithio â chydweithwyr yn AGIC i lunio trosolwg o feysydd penodol fel Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
- Adolygu ein dysgu a'n datblygiad ein hunain yn barhaus a sicrhau ein bod yn hyddysg yn y rheoliadau diogelu newydd a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Adolygiadau cenedlaethol a'u heffaith

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) 2018-19

Mae'r mesurau diogelu yn bodoli i rymuso ac amddiffyn unrhyw unigolyn lle mae amheuaeth ynglŷn â'i alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch eu gofal pan fyddant yn yr ysbyty neu'n byw mewn cartref gofal.

Caiff y gwaith o fonitro DoLS ei wneud ar y cyd ag AGIC, a gwnaethom gyhoeddi adroddiad monitro ar y cyd ar y ffordd y cafodd DoLS eu gweithredu ar gyfer 2018-19.

Ein canfyddiadau

- Cynyddodd cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law gan awdurdodau lleol 6% yn 2018-19.
- Mae mwyafrif y ceisiadau DoLS yn rhai ar gyfer unigolion sy'n 65 oed neu drosodd.
- Roedd y mwyafrif helaeth o'r ceisiadau a wrthodwyd ar sail galluedd meddyliol. Roedd angen rhagor o dystiolaeth ar yr awdurdodydd nad oedd gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad dan sylw cyn i'r cais DoLS gael ei dderbyn.
- Ni chwblhawyd y rhan fwyaf o geisiadau Safonol mewn 28 diwrnod. Ni all cyrff goruchwyllo gael sicrwydd bod pobl yn cael eu cadw'n gyfreithlon a bod eu hawliau dynol yn cael eu hamddiffyn. Prin iawn oedd y bobl a atgyfeiriwyd at Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) neu a atgyfeiriwyd at y Llys Gwarchod.

Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn disodli DoLS fel y system ar gyfer amddifadu rhywun dros 16 oed o'u rhyddid yn gyfreithlon. Mae Llywodraeth y DU wrthi ar hyn o bryd yn llunio'r cod ymarfer a'r rheoliadau i gefnogi'r broses o weithredu LPS, fydd i'w rhoi ar waith ym mis Ebrill 2022. Rydym yn parhau

i gydweithio ag eraill tuag at weithredu LPD yng Nghymru.

Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i oedolion hŷn

Rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Rhagfyr 2019, ar y cyd ag AGIC, gwnaethom werthuso i ba raddau roedd awdurdodau lleol yn hyrwyddo annibyniaeth i bobl dros 65 oed.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom y canlynol.

- gwrandio ar fwy na 200 o bobl, gofalwyr a theuluoedd
- gofyn i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol gwblhau hunanwerthusiadau
- arolygu 11 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion awdurdodau lleol.

Gwelsom fod pobl bron yn unfrydol yn dweud wrthym fod ymarferwyr yn eu trin â pharch ac urddas. Dywedodd llawer o bobl wrthym am y gwahaniaeth cadarnhaol y mae'r cyngor, y cymorth a'r gofal a gawsant yn ei wneud i'w bywydau bob dydd. Dywedodd rhai wrthym eu bod yn siomedig â'r ymateb gan y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn cyd-fynd â phryderon a fynegwyd gan ymarferwyr sy'n gwbl ymwybodol nad yw'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar rai pobl ar gael iddynt. Clywsom am fylchau mewn gwasanaethau cymorth cartref a chartrefi gofal nad oeddent yn addas am eu bod yn rhy bell o deuluoedd a ffrindiau.

Roedd ymarferwyr yn chwilio'n gynyddol am gyfleoedd i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau am bethau sy'n bwysig iddynt. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed. Rhaid i arweinwyr a rheolwyr weithio i integreiddio darpariaeth gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ac amlygu

pwysigrwydd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn niwylliant gwasanaethau ac arferion proffesiynol.

Gwelsom y gall cydweithio rhwng ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn fanteisiol iawn yn enwedig pan fydd pobl wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn yr un meysydd ers amser maith. Mae'r gwaith cadarnhaol hwn wedi'i adeiladu ar gydberthnasau. Yn anffodus, nid yw bob amser yn cael ei ategu gan waith partneriaeth rhwng uwch-reolwyr ac arweinwyr. Gwelsom fod lle i wella o ran y ffordd y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio gwasanaethau i sicrhau y gallant fod yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Arolwg o wasanaethau i blant anabl

Ym mis Tachwedd 2019, dechreuodd ein tîm arolygu awdurdodau lleol gynnal adolygiad thematig cenedlaethol o help, gofal a chymorth cynnar a chyfnod pontio

i blant anabl. Cynhaliwyd rhaglen arolygu a gweithgarwch â phwyslais penodol yn ystod 2019-20.

Buom yn gweithio'n agos gydag Anabledd Dysgu Cymru i gefnogi ein hymgysylltiad â phlant anabl a manteisio i'r eithaf ar hyn. Cwblhawyd pedwar arolygiad cyn mis Mawrth 2020 ar y cyd ag AGIC. Yn ystod yr arolygiadau hyn, buom yn ymgysylltu â phlant anabl a rhieni, staff awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau. Yn sgil y wybodaeth a gasglwyd gennym o ganlyniad i'n gweithgarwch, llwyddom i ddechrau llunio trosolwg cenedlaethol o wasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd.

Gwnaethom oedi'r adolygiad oherwydd pandemig COVID-19, ond bydd yn aildechrau ym mis Medi 2020. Byddwn yn llunio adroddiad trosolwg cenedlaethol a fydd yn casglu'r canfyddiadau allweddol o'n gweithgarwch arolygu ac ymgysylltu.

Cyd-arolygiad o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn cefnogi'r dull gweithredu a'r trefniadau sydd ar waith i arolygu awdurdodau lleol naill ai gan arolygiaethau unigol neu ar y cyd rhwng Estyn, Archwilio Cymru ac AGC. Y flwyddyn ddiwethaf, roedd yn bleser gennym arwain arolygiad peilot gan weithio ar draws pum arolygiaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019, buom yn cydweithio ag Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) ac Estyn i gynnal cyd-arolygiad arolygiaeth o'r ymateb amlasiantaeth i gamdriniaeth ac esgeulustod mewn awdurdod

lleol. Roedd yr arolygiad yn cynnwys gwerthusiad o'r modd yr oedd gwasanaethau lleol yn ymateb i achosion o gamfanteisio ar blant.

Tynnodd ein canfyddiadau am effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol yn y sir hon sylw at natur gymhleth ymarfer amddiffyn plant amlasiantaethol. Cydnabu sefydliadau partner y bu'r broses arolygu yn un gadarnhaol a'i bod wedi ysgogi mwy o waith cydlynus ar draws asiantaethau. Rydym yn gobeithio ailgydio yn y JICPA yn 2021.

Rhaglen arolygu cymheiriaid

Ar ddiwedd 2019 a dechrau 2020, treialodd ein tîm arolygu awdurdodau lleol raglen arolygu cymheiriaid. Gwirfoddolodd tri rheolwr o awdurdodau lleol gwahanol i gymryd rhan yn y rhaglen a chyfrannu at arolygiadau gofal a chymorth i blant

anabl. Roedd y rhaglen yn llwyddiannus a thynnodd y gwerthusiad sylw at fanteision y gwaith ar y cyd. Isod ceir dyfyniadau gan arolygydd cymheiriaid am y profiad.

“Dysgais lawer iawn am y ffordd y mae tîm arolygu yn llunio barn am ymarfer mewn awdurdod lleol. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn gallu ei ystyried pan fyddwn yn cael ein harolygu nesaf.

Roedd yn fanteisiol iawn archwilio canfyddiadau awdurdodau lleol eraill o waith achos, asesiad cymesur ac, yn anochel, roeddwn yn cynnal cymariaethau anffurfiol ag arferion gweithio fy awdurdod lleol ac yn nodi meysydd lle gallwn wella.”

Arolygydd Cymheiriaid

Wrth i ni adolygu perfformiad awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn gwelsom lawer o arferion cadarnhaol. Gwnaethom ymweld â thimau sy'n gweithio gyda phlant a oedd wedi bod mewn gofal, ac mewn un awdurdod lleol, cafodd y tîm ei ganmol am fabwysiadu dull gweithredu hyblyg, gan fod yn ymatebol a mynd gam ymhellach er mwyn sicrhau bod budd pennaf y person ifanc wrth wraidd ei

ymarfer bob amser. Yn yr un awdurdod lleol, gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o arferion diogelu oedolion, gydag asiantaethau yn cydweithio er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r unigolyn yn cael eu cefnogi. Yma, bu'r tîm diogelu, yr uned tai a'r uned ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cydweithio i helpu unigolyn i symud i sir arall er mwyn bod yn agosach at ei deulu.

Effaith gadarnhaol y broses arolygu

Ym mis Mehefin 2019, gwnaethom arolygu gwasanaethau i oedolion hŷn mewn awdurdod lleol ac arsylwi bod angen ystyried cryfderau pobl yn unol â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ymwneud â phrosesau cyfathrebu a diogelu. Pan wnaethom ddychwelyd ym mis Ionawr 2020, roedd yr awdurdod lleol wedi ystyried ein hargymhellion a bu modd i ni adrodd ar welliannau sylweddol o ran diogelu oedolion. Bu modd i ymarferwyr ddangos sut roeddent yn gwrando ar y canlyniadau roeddent am i'r bobl eu cyflawni, a chefnogi'r bobl i weithio'n greadigol tuag at yr hyn a oedd yn bwysig iddynt. Roedd yr amseroldeb, y cofnodi gwaith dadansoddi proffesiynol a'r broses o wneud penderfyniadau hefyd wedi gwella yn ystod y flwyddyn.

Effaith gadarnhaol y broses arolygu

Yn ystod arolygiad o wasanaethau i oedolion hŷn, gwelsom fod angen gwelliannau mewn perthynas â chefnogi gofalwyr. Gwnaethom argymhell bod angen i'r awdurdod lleol gydnabod rôl gofalwyr a sicrhau bod llais y gofalwr yn cael ei glywed, gyda chymorth wedi'i deilwra er mwyn galluogi gofalwyr i gyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain. Ym mis Mawrth 2020 gwnaethom ddilyn hyn â gweithgaredd â phwyslais penodol i ystyried y gwelliannau a wnaed mewn perthynas â chymorth i ofalwyr. Gwelsom fod yr awdurdod lleol wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o ddatblygu dull gwell o gynorthwyo gofalwyr, wedi'i gynllunio i gynyddu nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhelir a gwella eu hansawdd ynghyd â gwella'r cymorth emosiynol ac ymarferol a ddarperir.

Y 12 mis nesaf

Dros y 12 mis nesaf, bydd y tîm arolygu awdurdodau lleol yn datblygu, yn profi ac yn cyflwyno fframwaith diwygiedig i arolygu a gwerthuso perfformiad er mwyn gwneud gwahaniaeth i ansawdd

gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn yn parhau â'n gwaith o arolygu cymorth i blant anabl a'u teuluoedd. Rydym hefyd am gynnal rhagor o arolygiadau ar y cyd o'r trefniadau amddiffyn plant.

Gwelliannau Busnes Allweddol



Gwelliannau Busnes Allweddol

Cynllun Strategol AGC 2017-20

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gwneud nifer o welliannau i'n polisiâu, ein prosesau a'n gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu. Dyma rai o'r camau gweithredu a gwblhawyd gennym

y flwyddyn hon, sy'n ein helpu i wella ein perfformiad yn barhaus, hyrwyddo cydberthnasau cydweithredol ac ymgorffori newidiadau deddfwriaethol yn ein rhaglenni gwaith.

Blaenoriaeth Strategol 1: Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson.

- Lansiyd gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf (Cyswllt AGC) newydd
- Gwasanaethau ar-lein newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, a gwasanaethau gofal plant a chwarae
- Lansiyd proses gwynion newydd

Blaenoriaeth Strategol 2: Bod yn fedrus, yn alluog ac yn ymatebol.

- Dull gweithredu newydd o ran dysgu a datblygu yn cynnwys Wythnos Dysgu a Datblygu gyntaf AGC a rhaglen datblygu arweinyddiaeth
- Gwella ein dull gweithredu o ran y Gymraeg yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Adolygu ein model ar gyfer defnyddio arolygwyr y telir ffi iddynt

Blaenoriaeth Strategol 3: Bod yn llais arbenigol er mwyn dylanwadu ar welliannau a'u hysgogi

- Model newydd ar gyfer Cyd-arolygiadau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) wedi'i dreialu yng Nghymru
- Adolygiad cenedlaethol o ganlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal
- Datblygu cynllun ymgysylltu newydd ar y cyd â rhanddeiliaid

Blaenoriaeth Strategol 4: Rhoi deddfwriaeth ar waith yn effeithiol

- Cyhoeddi graddau ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae
- Ailgofrestru gwasanaethau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Symleiddio ein dull o gofrestru

Adeiladu ar ein cyflawniadau

Rydym am i'n Cynllun Strategol ar gyfer 2020-23 adeiladu ar y cyflawniadau a wnaed y flwyddyn hon. Byddwn yn rhoi ein systemau a'n prosesau newydd ar waith, yn parhau i atgyfnerthu ein dulliau ymgysylltu ac yn gwella ein gwasanaethau digidol ymhellach. Bydd y blaenoriaethau a nodir yn ein cynllun nesaf yn ein galluogi i ddylanwadu ar welliannau a'u hysgogi, darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gwella ein gwaith yn barhaus.

Cwynion amdanom ni

Rydym yn awyddus i glywed am safon y gwasanaeth a ddarperir gennym. Pan aiff pethau o chwith, rydym yn ymrwymedig i ymdrin â chwynion mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl, a hynny mewn ffordd deg, agored a thryloyw.

Gwnaethom lansio ein proses gwynion newydd ar 1 Ebrill 2019. Mae'r broses hon yn rhoi trefniadau clir a mwy cadarn ar waith ar gyfer y cyhoedd ac aelodau o staff AGC wrth ymdrin â chwynion amdanom ni. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, gwnaethom ymateb i 31 o gwynion, a chafodd 18 ohonynt eu datrys yn gynnar. Gwnaethom ymchwilio'n ffurfiol i 13 o gwynion a chafodd dwy ohonynt eu cadarnhau. Cafodd tair cwyn eu huwchgyfeirio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a benderfynodd nad oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt.

Mae cwynion, yn ogystal â chanmoliaeth, am ein hansawdd a'n perfformiad yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i ni. Rydym wedi rhoi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar waith sy'n nodi ein hymrwymiad i welliant parhaus, a'r ffordd y bydd hyn yn ein galluogi i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd o gwynion.

Wrth i ni barhau i weithredu a chyflwyno ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd, byddwn yn sefydlu Cylch Ansawdd i wella ansawdd yn ein holl feysydd gwaith drwy gymryd yr hyn a ddysgwyd a'n canfyddiadau o'n gweithgarwch sicrhau ansawdd a chynnig datrysiadau ar gyfer gwella. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i lywio ein hanghenion dysgu a datblygu sefydliadol yn y dyfodol.

Datblygu ein staff

Rydym yn parhau i adolygu a myfyrio ar y ffordd rydym yn gweithio er mwyn cyrraedd y safonau uchaf posibl, a helpu i wella canlyniadau i'r bobl fwyaf agored i ni wedd yn ein cymdeithas. Ein staff yw ein hased pwysicaf.

Rydym yn ymrwymedig i roi cyfleoedd i staff ddysgu a datblygu. Mae ein nod i sicrhau bod y staff yn cwblhau o leiaf bum diwrnod o ddysgu a datblygu bob blwyddyn er mwyn gwella sgiliau presennol ac adeiladu arnynt, neu i ddysgu a datblygu meysydd gwaith newydd. Ymysg y cyfleoedd dysgu a datblygu mae cysgodi, hyfforddiant wyneb i wyneb, e-ddysgu, darllen a gweithdai.

Yn ystod 2019-20, roedd rhaglen a gynlluniwyd o weithgareddau dysgu a datblygu yn cynnwys sefydlu rhaglen arwain a rheoli i staff ar lefel rheoli, hyfforddiant arolygu ar y cyd ag Estyn, ynghyd â hyfforddiant ar ddementia, chwarae a maeth.

Gwnaethom hefyd gyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i bob aelod o'r staff fel rhan o Wythnos Dysgu a Datblygu gyntaf AGC, a gynhaliwyd ar draws ein tair swyddfa yn ystod mis Mawrth 2020. Nod yr wythnos Dysgu a Datblygu oedd neilltuo amser i staff er mwyn dysgu i'w cefnogi yn eu gwaith a'u datblygiad.

Yn ystod yr wythnos, roedd 24 o sesiynau hyfforddiant gwahanol ar gael i staff eu mynychu. Roedd rhai o'r sesiynau ar gyfer timau penodol ac roedd eraill yn agored i bawb.

Oherwydd llwyddiant yr wythnos, byddwn yn cynnal Wythnos Dysgu a Datblygu eto yn ystod 2020-21.

Roeddem yn falch o weld cynnydd yn nifer y staff a ddewisodd ddysgu Cymraeg, neu i wella sgiliau presennol, gyda rhai aelodau o'r staff yn cwblhau'r arholiad perthnasol yn llwyddiannus ym mis Mehefin 2019.

Sefydliad digidol

Yn 2019-20, gwnaethom gyflwyno'r olaf o gyfres o newidiadau T.G. sylweddol ar draws systemau mewnol ac allanol y sefydliad gan ei gwneud yn haws i ddarparwyr a phobl gysylltu â ni. Mae buddsoddiad mewn canolfan gyswllt ffôn genedlaethol gyda llinellau penodol i wella gwasanaethau wedi'i gwneud yn haws i staff AGC ddelio â galwadau yn gyflym ac yn effeithiol.

Gwasanaethau ar-lein i ddarparwyr

O fis Ionawr 2020, ehangodd ein gwasanaethau ar-lein digidol i gynnwys darparwyr gofal plant a chwarae ledled Cymru. Sefydlodd darparwyr gyfrifon ar-lein i'w galluogi i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn gyflym ac yn ddiogel ar-lein. Mae'r gallu i gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

(SASS) ar-lein yn gwbl weithredol bellach ar gyfer blynyddoedd i ddod. Ym mis Chwefror 2020, gwnaethom lansio'r cyfleuster i gyflwyno cofrestriadau newydd ar gyfer gofal plant a chwarae drwy AGC Ar-lein, i'w gwneud yn haws i ddarparwyr ac unigolion gofrestru a gweithio gyda ni.

Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr i wella defnyddioldeb ein gwasanaeth ar-lein yn benodol yn yr ymateb i'r pandemig, ac i helpu darparwyr i weithio'n ddigidol. Ym mis Mawrth 2020, gwnaethom gyflwyno hysbysiadau ar-lein ychwanegol i'w cwblhau gan ddarparwyr, gan alluogi AGC i nodi gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt o ganlyniad i COVID-19 yn hawdd.

Ein gwefan

Tuag at ddiwedd 2019, gwnaethom gynnal adolygiad safle newydd o'n cynnwys a arweiniodd at ostyngiad o 30% yn nifer y tudelannau sydd ar gael ar-lein. Sicrhaodd y gwaith hwn bod ein holl wybodaeth yn gywir, yn gryno ac yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd iddi.

Yn ogystal â'n hadolygiad cynnwys, rydym yn cwblhau archwiliad llawn o'r wefan er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth a strwythur ein gwefan ar gael i bob defnyddiwr, yn enwedig lle caiff meddalwedd ymaddasol ychwanegol ei defnyddio pan fydd gan unigolyn anabledd sy'n effeithio ar y ffordd y caiff fynediad i'r we.

Atodiad 1

Ein sefydliad

Y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu:

- Gwasanaethau cartref gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Cynlluniau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd.

Cyfeiriwn at y rhain fel “gwasanaethau rheoleiddiedig”.

Rydym hefyd yn arolygu:

- Ysgolion preswyl
- Ysgolion arbennig preswyl
- Colegau addysg bellach, sy'n lletya myfyrwyr o dan 18 oed
- Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru, ac rydym yn cynnal adolygiadau cenedlaethol er mwyn monitro pa mor dda y mae gwasanaethau yn perfformio.

Ein pwerau cyfreithiol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.


Mae'r rhain i gyd yn rhoi'r pŵer i ni gofrestru ac arolygu'r gwasanaethau a restrir uchod.


Ble i gael rhagor o wybodaeth

- Rydym yn ysgrifennu adroddiadau ar bob un o'n harolygiadau a'n hadolygiadau.
- Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am nifer y gwasanaethau a'r lleoedd rydym yn eu rheoleiddio.

Mae ein cyfeiriadur o wasanaethau a rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.arolygiaethgofal.cymru

Gallwch hefyd ein dilyn ar:

 Twitter @arolygu_gofal

 Facebook @arolygiaethgofalcymru

Atodiad 2

Ein gweithlu

Ein staff

263 o staff ledled Cymru.

Ein swyddfeydd

Caerfyrddin, Cyffordd Llandudno,
Merthyr Tudful

Ein tîm uwch-reolwyr

Prif Arolygydd

Dau ddirprwy Brif Arolygydd

Pennaeth Arolygu Gwasanaethau
Oedolion a Phlant

Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Pennaeth Cofrestru a Gorfodi

Pennaeth Gwasanaethau Cymorth

Y Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac rydym yn gweithio tuag at fod yn sefydliad dwyieithog enghreifftiol. Mae hyn yn cynnwys darparu arolygwyr Cymraeg i ymgysylltu â phobl sydd wedi nodi mai'r Gymraeg yw eu hiaith ddewisol. Rydym hefyd wedi rhoi strategaeth gweithlu Cymraeg ar waith i helpu AGC i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg a darparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog i bobl Cymru.

Mae gennym grŵp hyrwyddwyr y Gymraeg, i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a dwyieithrwydd o fewn AGC. Nod y grŵp yw:

- nodi a rhannu arferion da;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- cefnogi'r gweithlu i wella sgiliau Cymraeg;
- cynyddu ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn y sefydliad.

Dyrannwyd cyllideb o £14,233,000 ar gyfer 2019-20.

Cawsom hefyd:

- £1.2 miliwn o gyllid gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith.
- £616,000 gan Is-adran Polisi Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae ac i weinyddu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol sef Cynllun Nani.


Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £13,419,641 wedi cael ei wario ar gostau staff ac roedd £2,614,495 wedi cael ei wario ar gostau nad oeddent yn ymwneud â staff, gyda gweithgarwch arolygu a rheoleiddio yn cyfrif am 67% o gostau staff.

Yr hyn y gwnaethom fuddsoddi ynddo

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom fuddsoddi mewn canolfan gyswllt ffôn genedlaethol wedi'i chysylltu â'n systemau mewnol er mwyn gwella gwasanaethau yn allanol, gan ei gwneud yn haws i staff AGC ddelio â galwadau yn gyflym ac effeithiol.



Yn ystod 2019 ac ar ddechrau 2020, cyflwynodd ein Prosiect Digidol y newidiadau mawr olaf ar draws ein systemau ar-lein mewnol ac allanol.

Dadansoddiad o wariant



- Costau Staff
- Costau TGCh
- Arall*
- Cyfieithu
- Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

* Dadansoddiad o wariant: Mae 'Arall' yn cyfuno nifer o gostau llai, er enghraifft hyfforddiant staff a chyfathrebu

 0300 7900 126 AGC@llyw.cymru arolygiaethgofal.cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

 Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales